

# **Aseiad Amgylcheddol Strategol**

## **Cyrff Ymgynghori yng Nghymru- Gwasanaethau a Safonau ar gyfer Awdurdodau Cyfrifol**

Mae'r nodyn hwn yn disgrifio'r gwasanaethau a'r safonau y gall Awdurdodau Cyfrifol eu disgwyl gan Gyrff Ymgynghori Cymru (Cadw a Chyfoeth Naturiol Cymru), wrth ymgynghori ynghylch Cyfarwyddeb Ewropeaidd 2001/42/EC ar 'asesu cynlluniau a rhaglenni penodol ar yr amgylchedd' (y Gyfarwyddeb Aseiad Amgylcheddol Strategol).

## **Y Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol; Gwasanaethau a safonau y gallwch eu disgwyl gan y 'Cyrrff Ymgynghori' yng Nghymru.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi dynodi Cadw a Chyfoeth Naturiol Cymru yn 'Cyrrff Ymgynghori' yng Nghymru o ran y Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol (sy'n cyfeirio at 'awdurdodau a chanddynt gyfrifoldeb amgylcheddol'), y mae'n rhaid ymgynghori â hwy yn ystod y broses Asesiad Amgylcheddol Strategol.

Mae ymgynghori â'r ddau gorff hyn yn orfodol yn ystod pedwar cam y broses Asesiad Amgylcheddol Strategol.

- **Sgrinio:** pennu a yw'n ofynnol i gynllun neu raglen gael Asesiad Amgylcheddol Strategol (Erthygl 3(6) o'r Gyfarwyddeb)
- **Cwmpasu:** penderfynu ar gwmpas, maint a lefel y manylion sy'n rhaid eu cynnwys o ran yr wybodaeth yn yr Adroddiad Amgylcheddol (Erthygl 5(4) o'r Gyfarwyddeb)
- **Adrodd:** ymgynghori ynghylch yr Adroddiad Amgylcheddol a'r cynllun neu'r rhaglen ddrafft gysylltiedig (Erthygl 6(2) o'r Gyfarwyddeb)
- **Mabwysiadu:** darparu gwybodaeth am y cynllun/rhaglen a fabwysiadwyd, yr ymgynghoriadau a gyflawnwyd, y penderfyniadau a'r mesurau monitro a ddatblygwyd (Erthygl 9(1) o'r Gyfarwyddeb).

Mae'r nodyn hwn yn nodi'r gwasanaethau a'r safonau y gall cynllunwyr cynlluniau a rhaglenni eu disgwyl gan y Cyrrff Ymgynghori wrth ymgynghori â ni yn rhan o'r broses Asesiad Amgylcheddol Strategol.

Bydd Cyrrff Ymgynghori yn ymdrechu i fodloni'r safonau hyn; fodd bynnag nid ydynt yn statudol ac maent yn cael eu darparu fel canllawiau yn unig. Gall fod adegau pan na fydd y Cyrrff Ymgynghori yn gallu bodloni'r safonau oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth.

Bydd y Safonau Gwasanaeth hyn yn gymwys i'r cynlluniau a'r rhaglenni a ystyrir dan Reoliadau Cymru ar gyfer Asesiad Amgylcheddol Strategol (sef, Offeryn Statudol Cymru 1656 (W.170) fel y'i diwygiwyd gan Gorff Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 a Rheoliadau'r DU (Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004. Offeryn Statudol 1633). Mae Cyrrff Ymgynghori yn Lloegr wedi cynhyrchu nodiadau a safonau tebyg ar gyfer ardaloedd yn eu hawdurdodaeth.

Mae Cyrrff Ymgynghori hefyd yn debygol o gael ceisiadau anffurfiol am wybodaeth amgylcheddol a chynghor ar faterion penodol e.e. monitro. Egwyddor graidd yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yw ei bod yn broses ailadroddol sy'n cael ei defnyddio i fireinio cynnwys cynllun neu raglen dros gyfnod o amser. Gallai hyn olygu felly bod angen sawl ymgynghoriad ar unrhyw gynllun neu raglen.

## Gwasanaethau a Safonau Cyrff Ymgynghori Cymru ar gyfer Ymgynghoriadau'r Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol

Mae Cyrff Ymgynghori yn disgwyl darparu cyngor i ystod eang o 'Awdurdodau Cyfrifol' (y rheini sy'n cyflawni Asesiad Amgylcheddol Strategol o'r cynlluniau a'r rhaglenni dan y Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol). Darperir y cyngor hwn yn ein rôl ffurfiol fel 'awdurdod â chyfrifoldeb amgylcheddol' (cyfeirir ato fel 'Corff Ymgynghori' yn y Rheoliadau Gweithredu, Erthygl 4(1)) a weithiau mewn capasiti llai ffurfiol, anstatudol. Gallai'r gwasanaethau a'r safonau a ddarperir ar gyfer y rolau hyn fod yn wahanol i'w gilydd.

Mae proses yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn eang, ac yn gofyn am ystyried nifer o wahanol faterion dros gyfnod o amser. Bydd pob Corff Ymgynghori yn cynorthwyo Awdurdodau Cyfrifol ar bynciau sy'n berthnasol i'w maes penodol o arbenigedd a chyfrifoldeb a'r wybodaeth benodol mae'n ei chadw. Mae Tabl 1 yn darparu crynodeb o brif feysydd arbenigedd a diddordeb y Cyrff Ymgynghori yng Nghymru. Mae Tabl 2 yn crynhoi'r prif bynciau y mae gan bob un o'r Cyrff Ymgynghori ddata ar eu cyfer.

Byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion ar y camau sgrinio a chwmpasu. Yn y cam adrodd byddwn fel arfer yn adolygu i ba raddau yr ystyriwyd ein cyngor blaenorol wrth ddatblygu'r cynllun/rhaglen.

Efallai na fyddwn yn gallu darparu ymateb sylweddol i bob ymgynghoriad. Defnyddir dull cymesur yn seiliedig ar risg (er mwyn canolbwyntio ar yr asesiadau â'r flaenoriaeth uchaf) o fewn cyd-destun a gofyniad Cyfarwyddeb a Rheoliadau yr Asesiad Amgylcheddol Strategol. Bydd pob Corff Ymgynghori yn nodi'r asesiadau hynny sy'n gofyn am ymateb manwl a phenodol.

Lle na fydd Cyrff Ymgynghori yn nodi bod materion sylweddol neu nad ydynt yn meddu ar arbenigedd neu wybodaeth berthnasol i ymgynghoriad Asesiad Amgylcheddol Strategol, gallant ddarparu ymateb 'dim sylw'. Nid yw ymateb 'dim sylw' neu ymateb lleiaf posibl yn effeithio ar ymrwymiad y Cyrff Ymgynghori i gynghori ar gynigion datblygu penodol ac o bosibl eu gwrthwynebu, a allent godi yn fframwaith y cynllun neu'r rhaglen sy'n amodol ar yr Asesiad Amgylcheddol Strategol.

Pan fo gan gynllun neu raglen oblygiadau traws-ffiniol e.e. yn Lloegr, neu y gallai effeithio ar y sector morol, bydd y Cyrff Ymgynghori yn cysylltu â'u cymheiriaid yn y gweinyddiaethau perthnasol i ddatrys unrhyw faterion posibl a allai wrthdaro.

## Crynodeb o'r Cyrff Ymgynghori

Mae **Cadw**, sy'n rhan o wasanaeth hanesyddol amgylcheddol Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am gadw a hyrwyddo'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Gall Cadw ddarparu cyngor ar faterion yn ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol ac elfennau o'r dreftadaeth ddiwylliannol a'r dirwedd hanesyddol. Mae'n cadw gwybodaeth am henebion rhestredig, safleoedd drylliadau dynodedig, tirweddau hanesyddol, parciau a gerddi hanesyddol ac adeiladau rhestredig. Mae rhagor o wybodaeth am rhai o'r rhain, a dynodiadau eraill sy'n berthnasol megis Ardaloedd Cadwraeth, yn cael eu cadw gan awdurdodau lleol. Mae Ymddiriedolaethau Archaeolegol Rhanbarthol hefyd yn cadw gwybodaeth am safleoedd archeolegol nad ydynt wedi'u rhestru a thirweddau hanesyddol. Gellir dod o hyd i'r wybodaeth ar ein gwefan [www.cadw.wales.gov.uk](http://www.cadw.wales.gov.uk).

Pwrpas cyfreithiol **Cyfoeth Naturiol Cymru** yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru'n cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy, nawr ac yn y dyfodol.

Cawsom ein sefydlu ar 1 Ebrill 2013 a ni yw prif gynghorwr Llywodraeth Cymru a gwasanaeth cyhoeddus ehangach Cymru ar yr amgylchedd a rheoli adnoddau naturiol Cymru. Rydym yn cyflawni'r rôl hon fel ymgynghorai statudol ac yn gynghorwr arbenigol ar bolisi ac yn cyflawni hyn trwy ein sail dystiolaeth helaeth a'n gwaith ehangach. Rydym yn cyflawni nifer o weithrediadau ar y cyd â'n rôl ymgynghorol; yn rheolydd ar gyfer mwy na 30 cyfundrefn, yn rheolwr tir ar gyfer ystâd coedwigoedd Llywodraeth Cymru, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol ac asedau Amddiffyn rhag Llifogydd ac yn ymatebwr Categori 1 ar gyfer ystod o ddigwyddiadau amgylcheddol. Rydym yn cyflogi mwy na 1900 o staff medrus ac arbenigol sy'n helpu ni i gyflawni ein hystod lawn o gyfrifoldebau. Ceir rhagor o wybodaeth ar ein gwefan yn [www.naturalresourceswales.gov.uk](http://www.naturalresourceswales.gov.uk).

## Rheoliadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol

Mae'r Rheoliadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol ar gyfer Cymru a'r DU yn diffinio terfynau amser penodol ar gyfer ymgynghori. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Rheoliad 12(6) '*Where a consultation body wishes to respond to a consultation under paragraph 2 (i.e. when deciding the scope and level of detail of information to be included in the Environmental Report), it shall do so within a period of 5 weeks beginning with the date on which it receives the responsible authority's invitation to engage in the consultation*'.
- Rheoliad 13(3) '*The period referred to in paragraph 2(d) (i.e. inviting the consultation bodies and public consultees to express their opinion on the draft plan or programme and its accompanying environmental report) must be not less than 28 days and of such length that the consultation bodies and public consultees are given an effective opportunity to express their opinion on the relevant documents*'.

|                         | <b>Safon Gwasanaeth Arferol</b>  | <b>Ceisiadau cymhleth neu eithriadol</b>           |
|-------------------------|--|--|
| <b>Corff Ymgynghori</b> |  |  |
| Cadw                    | yn y terfynau amser statudol ar gyfer y weithdrefn ymgynghori yn dibynnu ar y math o gynllun/rhaglen | Yn dibynnu ar yr achos ond hyd at uchafswm o 2 fis |
| Cyfoeth Naturiol Cymru  | yn y terfynau amser statudol ar gyfer y weithdrefn ymgynghori yn dibynnu ar y math o gynllun/rhaglen | Yn dibynnu ar yr achos ond hyd at uchafswm o 2 fis |

### **Safonau Gwasanaeth y Corff Ymgynghori**

Mae terfynau amser statudol yn y cyd-destun hwn yn golygu'r terfynau amser a nodir yn Rheoliadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol.

Gwasanaethau a Safonau y gall Awdurdodau Cyfrifol eu disgwyl gennym ni

| Ein gwasanaeth   | Ein Safon  |
|--|--|
| <p><b>Sgrinio:</b> Ymateb i ymgynghoriad ynghylch a fyddai cynllun neu raglen yn debygol o gael effaith amgylcheddol sylweddol</p>   | <p><b>Byddwn</b> fel arfer yn ymateb cyn pen y terfynau amser a nodir yn ein safonau gwasanaeth unigol neu'r cyfnod amser statudol a nodir yn y Rheoliadau, pa un bynnag sydd fyrraf.</p> <p>Mewn <b>achosion cymhleth</b> pan na allwn fodloni'r safon hwn, bydd y swyddog sy'n ymdrin â'r achos yn dod i gytundeb â chi o ran pryd y gellir darparu ymateb. Mewn rhai achosion syml <b>gallem</b> benderfynu ymateb â chyngor cyffredinol.</p>   |
| <p>Ymateb i geisiadau am wybodaeth i gyfarwyddo'r amgylchedd gwaelodlin</p>  | <p>Bydd peth data a gwybodaeth ar gael yn barod ar ein gwefannau a dylid cael yr wybodaeth hon yn gyntaf cyn ymgynghori â'r sefydliad perthnasol.</p> <p><b>Byddwn</b> fel arfer yn ymateb cyn pen y terfynau amser a nodir yn ein safonau gwasanaeth unigol neu'r cyfnod amser statudol a nodir yn y Rheoliadau, pa un bynnag sydd fyrraf.</p> <p>Byddwn yn darparu yr wybodaeth sydd ar gael yn rhwydd i ni yn unig, (mae <b>Tabl 2</b> yn darparu canllaw o'r math o wybodaeth sy'n cael ei chadw gan bob corff ymgynghori). Byddwn yn darparu gwybodaeth yn y ffurf fwyaf priodol yn ein barn ni ac ar y raddfa fwyaf addas, ond ni fyddwn yn ailfformatio nac yn trin gwybodaeth ar gyfer ymgynghoriadau unigol. Os yw'r cais yn syml <b>gallem</b> ddarparu cyngor cyffredinol neu gynnyrch gwybodaeth. Os na allwn ddarparu'r wybodaeth y gofynnir amdani <b>byddwn</b> yn esbonio pam, ac os yn bosibl yn eich cyfeirio at ffynonellau gwybodaeth perthnasol eraill.</p> |
| <p><b>Cwmpasu:</b> Ymateb i ymgynghoriad ynghylch cwmpas a lefel manylion yr wybodaeth sy'n rhaid ei chynnwys yn yr Adroddiadau Amgylcheddol. (Yn dilyn ceir crynodeb o'r math o gyngor yr ydym yn disgwyl ei ddarparu ar gyfer pob adran)</p> | <p><b>Byddwn</b> fel arfer yn ymateb cyn pen y terfynau amser a nodir yn ein safonau gwasanaeth unigol neu'r cyfnod amser statudol a nodir yn y Rheoliadau, pa un bynnag sydd fyrraf.</p> <p>Mewn <b>achosion cymhleth</b>, pan na fyddwn yn gallu bodloni'r safon hwn, bydd y swyddog sy'n ymdrin â'r 'achos' yn dod i gytundeb â chi o ran pryd y gellir darparu ymateb.</p> <p>Mewn rhai achosion syml <b>gallem</b> benderfynu ymateb â chyngor cyffredinol.</p>   |

|   |   |
|---|---|
| <p><b>Adrodd:</b> Ymateb i ymgynghoriad ynghylch yr Adroddiad Amgylcheddol.</p>   | <p><b>Byddwn</b> fel arfer yn ymateb yn y terfynau amser a nodir yn ein safonau gwasanaeth unigol neu'r cyfnod amser statudol a nodir yn y Rheoliadau, pa un bynnag sydd fyrraf.</p> <p>Os ydym yn fodlon bod ein cyngor ar yr adeg cwmpasu wedi cael ei ystyried, gallai hyn fod yn gydnabyddiaeth yn unig.</p> <p>Mewn <b>achosion cymhleth</b>, pan na allwn fodloni'r safon hon, bydd y swyddog sy'n ymdrin â'r achos yn dod i gytundeb â chi o ran pryd y gellir darparu ymateb.</p> |
| <p><b>Penderfynu mabwysiadu:</b> Ymateb i fanylion y cynllun neu'r rhaglen a fabwysiadwyd yng nghydstun y broses Asesiad Amgylcheddol Strategol; datganiad ar yr ymgynghoriad a'r penderfyniadau a wnaethpwyd, gan gynnwys mesurau'n ymwneud â monitro.</p> | <p><b>Ni fyddwn</b> fel arfer yn ymateb ar yr adeg hon, heblaw pan fyddwn yn ystyried fod penderfyniad i fabwysiadu cynllun/rhaglen wedi methu â mynd i'r afael â phwyntiau sylweddol a wnaethpwyd mewn ymatebion ymgynghori blaenorol i Adroddiad Amgylcheddol cynllun/rhaglen.</p>  |

Crynodeb o'r cyngor y gallech ei ddisgwyl gennym ni

|  |  |
|--|--|
| <p><b>Adran benodol o'r adroddiad Amgylcheddol (yn seiliedig ar y Rheoliadau Amgylcheddol Strategol drafft)</b></p>        | <p><b>Y cyngor yr ydym yn disgwyl ei ddarparu yn ystod y cam cwmpasu (DS.</b> Bydd ein cyngor yn ystod y cam Adroddiad Amgylcheddol yn bennaf yn gwirio sut y cafodd y cyngor hwn ei ystyried)</p> |
| <p>1. Perthynas (os o gwbl) â chynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill.</p>   | <p><b>Byddwn</b> yn cyngori ynghylch unrhyw gynlluniau a rhaglenni perthnasol, yr ydym yn ymwybodol ohonynt, yr ydym o'r farn y dylid eu hystyried yn yr asesiad.</p>                              |
| <p>2. Agweddau perthnasol cyflwr presennol yr amgylchedd a'u hesblygiad tebygol heb weithredu'r cynllun neu'r rhaglen.</p> | <p><b>Byddwn</b> yn rhoi ein barn ar a yw cyflwr presennol yr amgylchedd a'r tueddiadau allweddol wedi'u nodi'n gywir, neu gynghori yn unol â hynny.</p>   |
| <p>3. Nodweddion amgylcheddol ardaloedd y mae'n debygol yr effeithir arnynt yn sylweddol.</p>                              | <p><b>Byddwn</b> yn rhoi ein barn ar a yw nodweddion amgylcheddol yr ardaloedd y mae'n debygol yr effeithir arnynt yn sylweddol wedi'u nodi'n gywir, neu gynghori yn unol â hynny.</p>             |

|  |   |
|--|---|
| <p>4. Unrhyw broblemau amgylcheddol presennol sy'n berthnasol i'r cynllun neu'r rhaglen gan gynnwys yn benodol, y rheini sy'n berthnasol i unrhyw ardaloedd o bwysigrwydd amgylcheddol, megis ardaloedd a ddynodwyd yn unol â'r Gyfarwyddeb Adar a Chynefinoedd. Fel arfer Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r prif sefydliad sy'n darparu'r cyngor hwn.</p>   | <p><b>Byddwn</b> yn rhoi ein barn ar unrhyw broblemau amgylcheddol sy'n bodoli eisoes yr ydym yn ymwybodol ohonynt, sy'n berthnasol i'r asesiad, gan roi sylw penodol i safleoedd dynodedig.</p>  |
| <p>5. Y nodau diogelu amgylcheddol sy'n berthnasol i'r cynllun neu'r rhaglen a'r modd mae'r nodau hynny ac unrhyw ystyriaethau amgylcheddol wedi cael eu hystyried yn ystod y paratoi.</p>   | <p><b>Byddwn</b> yn rhoi ein barn ar y nodau diogelu amgylcheddol perthnasol a'r ystyriaethau y dylid eu hystyried yn yr asesiad.</p>   |
| <p>6. Yr effeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd: •Bioamrywiaeth, poblogaeth, iechyd dynol, ffawna, fflora, pridd, dŵr, aer, ffactorau hinsawdd, asedau materol, treftadaeth ddiwylliannol (gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archaeolegol), a thirwedd a'r • rhyngberthynas rhwng y rhain a materion eraill a restrir yn y Gyfarwyddeb ac unrhyw effeithiau tymor byr, tymor canolig, hirdymor; effeithiau parhaol ac effeithiau dros dro; effeithiau cadarnhaol a negyddol; ac effeithiau eilaidd, cronnus a synergyddol.</p> | <p><b>Byddwn</b> yn rhoi ein barn ar yr effeithiau tebygol sylweddol ar yr amgylchedd gan y cynllun neu'r rhaglen gan roi sylw penodol i'r pynciau sy'n berthnasol i bob corff ymgynghori, fel y nodir yn <b>Nhabl 1</b>. O fewn terfynau ein gwybodaeth leol ac arbenigedd <b>gallem</b> roi barn ar: • y rhyngberthynas rhwng y rhain a'r materion eraill a restrir yn y Gyfarwyddeb; • ac ar unrhyw effeithiau tymor byr, canolig a hirdymor; effeithiau parhaol ac effeithiau dros dro; effeithiau cadarnhaol a negyddol; ac effeithiau eilaidd, cronnus a synergyddol, yr ydym yn ymwybodol ohonynt.</p> |
| <p>7. Y mesurau a ragwelir i atal, lleihau a gwrthbwysu unrhyw effeithiau anffafriol ar yr amgylchedd trwy weithredu'r cynllun neu'r rhaglen.</p>  | <p><b>Gallem</b> roi ein barn ar unrhyw fesurau a allai atal, lleihau a gwrthbwysu unrhyw effeithiau anffafriol ar yr amgylchedd trwy weithredu'r cynllun neu'r rhaglen.</p>  |
| <p>8. Y rhesymau dros ddewis yr opsiynau eraill a sut y cyflawnwyd yr asesiad.</p>   | <p><b>Gallem</b> roi ein barn ar unrhyw opsiynau eraill i'r cynllun neu'r rhaglen.</p>  |
| <p>9. Y mesurau a ragwelwyd ar gyfer monitro yn unol ag Erthygl 10 o'r Gyfarwyddeb.</p>  | <p><b>Gallem</b> roi ein barn ar unrhyw fesurau monitro yr ydym yn credu sy'n briodol.</p>  |



**Tabl 1: Pynciau allweddol ar gyfer bob Corff Ymgynghori**

| Pwnc   | Cadw | Cyfoeth Naturiol Cymru |
|--|------|------------------------|
| Bioamrywiaeth gan gynnwys fflora a ffawna                      | -    | □□                     |
| Poblogaeth   | -    | -                      |
| Iechyd Dynol   | -    | -                      |
| Pridd (yn cynnwys materion gwastraff a thir wedi'i halogi)     |      | □□                     |
| Dŵr (ansawdd ac adnoddau dŵr)                                  |      | □□                     |
| Aer  |      | □□                     |
| Ffactorau hinsawdd (gan gynnwys risgiau llifogydd strategol)   |      | □□                     |
| Asedau materol (yn cynnwys buddiannau daearegol ac isadeiledd) |      | □□                     |
| Treftadaeth ddiwylliannol                                      | □□   | □                      |
| Tirwedd  | □    | □□                     |

Allwedd: □□= prif bwnc, □= ail bwnc, - = dim sylw.

**Tabl 2: Y math o wybodaeth sy'n cael ei chadw gan bob Corff Ymgynghori**

| Pwnc   | Cadw | Cyfoeth Naturiol Cymru |
|--|------|------------------------|
| Bioamrywiaeth, fflora, ffawna                                | -    | □□                     |
| Poblogaeth   | -    | -                      |
| Iechyd dynol   | -    | -                      |
| Pridd (yn cynnwys materion gwastraff a thir wedi'i halogi)   | -    | □□                     |
| Dŵr (ansawdd ac adnoddau dŵr)                                | -    | □□                     |
| Aer  | -    | □                      |
| Ffactorau hinsawdd (gan gynnwys risgiau llifogydd strategol) | -    | □□                     |
| Asedau materol ac isadeiledd                                 | -    | □□                     |
| Treftadaeth ddiwylliannol                                    | □□   | □                      |
| Tirwedd  | □    | □□                     |

## **Statws dogfen**

Mae cynnwys y ddogfen hon (Aseiad Amgylcheddol Strategol: Gwasanaethau a Safonau ar gyfer Cyrff Ymgynghori yng Nghymru) wedi'i gymeradwyo'n ffurfiol gan:

## **Cadw**

Enw / teitl:

Dyddiad:

## **Cyfoeth Naturiol Cymru**

Enw / teitl: Emyr Roberts, Prif Weithredwr

Dyddiad: